

Cyfarfod y Gweithgor ar lywodraeth leol

30 Tachwedd 2018, 13:00 – 14:00
Novotel, Caerdydd

Cofnodion Drafft

Yn bresennol

Derek Vaughan ASE	Cadeirydd
Y Cynghorydd Debbie Wilcox	Arweinydd CLILC, Arweinydd Grŵp Llafur ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cynghorydd Andrew Morgan	Llywydd CLILC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cynghorydd Peter Fox	Arweinydd Grŵp Ceidwadwyr CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Mynwy
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd Hugh Evans	Arweinydd Grŵp Annibynnol CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Rob Stewart	Dirprwy Arweinydd CLILC ac Arweinydd Dinas a Sir Abertawe
Alun Davies AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Mark Drakeford AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Michael Plaut	Cadeirydd, CBI Cymru a chynrychiolydd busnes
Gaynor Richards	Cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a chynrychiolydd y Trydydd Sector

Ymddiheuriadau:

Bethan Thomas	Pennaeth Llywodraeth Leol, UNSAIN Cymru a chynrychiolydd undebau llafur
---------------	---

Hefyd yn bresennol:

Steve Thomas	Prif Weithredwr, CLILC
Chris Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr, CLILC
Jon Rae	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, CLILC
Rachel Maycock	Cynghorydd Arbennig, Llywodraeth Cymru
Reg Kilpatrick	Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
Claire Bennett	Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
Lisa James	Dirprwy Gyfarwyddwr Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
Debra Carter	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
David Willis	Llywodraeth Cymru
Paula James	Ysgrifenyddiaeth (Llywodraeth Leol)
Daniel Hurford	Ysgrifenyddiaeth (CLILC)
Ceri Reeves	CLILC, Gweinyddwr i Derek Vaughan ASE
Andrew Young	Cymorth Llywodraeth Cymru
Tim Donegani	Cymorth Llywodraeth Cymru
Sarah Govier	Pennaeth Polisi Gwariant Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

Croeso a Chyflwyniadau

- 1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, diolchodd i bawb am ddod a gwnaeth sylwadau agoriadol i roi'r cyd-destun. Nododd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at gyfarfod adeiladol.
- 1.2 Diolchodd y Cadeirydd yn benodol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid am eu presenoldeb.
- 1.3 Nododd y Cadeirydd ymddiheuriad gan Bethan Thomas, Unsain, ac nad oedd neb ar gael i gymryd ei lle.

Nodyn o'r cyfarfod diwethaf

- 2.1 Nododd y Cadeirydd gamau sydd wedi'u cwblhau gyda'r sylwadau penodol canlynol
 - Bydd y cais am gyfarfod â'r Prif Weinidog yn cael ei gynnwys i'w ystyried fel rhan o'r briff ar gyfer y Prif Weinidog ar ôl ei ethol.
 - Bydd y papur Parch gan y Naill a'r Llall a Chydgyfrifoldebau'n cael ei ddiweddarau gan Daniel Hurford (DH) a bydd yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y grŵp hwn.
 - Mae'r papur Pwerau a Hyblygrwydd wedi'i gynnwys fel papur i'w nodi.
 - Bydd y papur arfaethedig ar Weithio mewn Partneriaeth yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.
 - Mae adroddiad yr IRP ar Dâl Cynghorwyr wedi cael ei ddsbarthu i'r grŵp er gwybodaeth.

Papur 1: Newid mewn Gwasanaeth a'r Sefyllfa Ariannol – Fframwaith Ariannol

- 3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Jon Rae i gyflwyno papur CLILC.
- 3.2 Dywedodd Jon wrth y grŵp fod y papur wedi ei ddatblygu yn dilyn cylch gorchwyl cytunedig y grŵp ac roedd yn seiliedig ar safbwyntiau sydd wedi bod yn destun trafod yng nghylchoedd Llywodraeth Leol ers amser, ac sydd hefyd wedi'i gynnwys ym maniffesto CLILC.
- 3.3 Roedd prif bwyslais y papur ar agor trafodaeth ar faterion sy'n seiliedig ar y maniffesto lleoliaeth, gyda phrif bwyslais y cynigion yn seiliedig ar greu fframwaith ymgysylltu sy'n dderbyniol ar gyfer trafodaethau canolog a lleol, a

hynny mewn pryd ar gyfer yr adolygiad o wariant y flwyddyn nesaf. Gallai trafodaethau helpu i ganolbwyntio sylw Gweinidogion ar benderfyniadau cyllidebol sy'n gysylltiedig â chyllid llywodraeth leol a chynllunio ariannol yn y tymor canolig.

- 3.4 Cafwyd crynodeb gan Jon o'r cynigion sydd yn y papur. Roeddent yn cynnwys:
- Deialog ac ymgysylltu cynharach
 - Cais am setliadau ariannol tair blynedd
 - Cyhoeddi canlyniadau ar gyfer grantiau'n amserol
 - Sefydlu grŵp swyddog/swyddogion i gael dealltwriaeth gyffredin o'r pwysau ar wasanaethau lleol a fyddai'n cyfrannu at yr adolygiad o wariant
 - Ymgysylltu a gweithio mwy clos rhwng gweithgorau fel yr Is-grŵp Cyllid a Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
 - Alinio gweithgor trethiant Llywodraeth Cymru'n well â'r is-grŵp cyllid presennol
 - Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol a fyddai'n cynnwys cyllid newydd yng nghyd-destun cyni
 - Agor trafodaeth ar wasanaethau llywodraeth leol a'r diffiniad aml-haenog a ffurfiwyd gyda'r trydydd sector a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
 - Ceisio alinio llinellau'r gyllideb gyda'r fframwaith ar atal.
- 3.5 Nododd y Cynghorydd Debbie Wilcox (DW) nad oedd hon yn ymdrech i ailagor y setliad ariannol am y flwyddyn hon ond yn hytrach yn drafodaeth ar sut y gallwn ymgysylltu'n well ar gyllidebau drwy ddeialog gynharach, adeiladol, gan rannu asesiad o'r costau cyfredol a'r pwysau sy'n wynebu Llywodraeth Leol. Roedd DW o'r farn y byddai hyn yn adeiladu ar y dull a ddisgrifiwyd yn y papur Parch gan y Naill a'r Llall a Chydgyfrifoldebau.
- 3.6 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (yr YCG) i Jon a CLILC am y papur gan nodi bod llawer yn y papur y gallem yn rhwydd gytuno arno rhwng ein gilydd - dialog cynharach, er enghraifft. Roedd yr YCG yn cytuno bod cyd-ddealltwriaeth yn allweddol. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddeall y pwysau sy'n wynebu Llywodraeth Leol, ac yn yr un modd mae angen i arweinyddion Llywodraeth Leol ddeall y terfynau y mae Llywodraeth Cymru yn gorfod gweithio o fewn iddynt. Byddai deialog ar bwysau a rennir yn fuddiol.
- 3.7 Dywedodd yr YCG ei fod yn deall yr angen am gyllidebau aml flwyddyn a byddai'n hoffi gwneud hynny lle byddai hynny'n bosibl.
- 3.8 Nododd yr YCG fod yr adolygiad o wariant yn debygol o fod yn ystod Hydref 2019 a bod cyfle i ddod at ein gilydd yn gynharach i ddylanwadu ar y broses hon. Mae angen i ni bwysu a mesur, camu'n ôl ac adolygu prosesau i

wireddu'r symleiddio mae Llywodraeth Leol yn gofyn amdano. Yn benodol, mynegodd yr YCG awydd i weithio â Llywodraeth Leol ar fater y grantiau a chytuno ar bamedrau'r rhain yn y gyllideb derfynol.

- 3.9 O ran grantiau, dywedodd yr YCG fod y Prif Weinidog wedi awgrymu y byddai Llywodraeth Leol yn cael rhybudd cynnar o grantiau a fyddai ar gael i chi. Dywedodd yr YCG ei fod yn gobeithio y byddai hynny'n fuddiol, a'i fod yn derbyn yn llwyr y pwyntiau a godwyd mai gorau po gyntaf y byddai Llywodraeth Leol yn cael yr wybodaeth.
- 3.10 Mynegodd yr YCG barodrwydd i gyfrannu at faterion eraill llywodraeth leol fel treth a hefyd croesawodd y gydnabyddiaeth o'r angen am waith ataliol a'r gwaith roedd y gyllideb gyfredol wedi'i wneud yn y maes hwn. O ran atal, nododd yr YCG nad oedd y diffiniad yn un haearnidd ond mai dyna oedd y diffiniad gorau y gellid ei gael cyn cylch y gyllideb. Y gobaith oedd y gellid ei wneud yn adnodd y gellid ei ddefnyddio. Dywedodd yr YCG ei bod yn gostus i drwsio pethau ar ôl iddynt fynd o chwith, hynny a bod arian yn mynd ymhellach pan fydd yn cael ei wario ar atal.
- 3.11 Cytunodd Derek Vaughan fod angen sicrhau gwell dealltwriaeth a bod angen cyfrwng i drafod – bod angen rhoi diwedd ar y gweiddi blynyddol. Credai fod y papur yn dangos bod gormod o is-grwpiau cyllid a bod angen gwaith i fapio beth mae pob un yn ei wneud a lle'r roedd cyfleoedd i symleiddio pethau.
- 3.12 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (YCLLGC) yn credu bod strwythurau hysbys a chydabyddedig ar faterion ariannol a phe bai angen strwythurau gwahanol arnom bydd angen i ni ddeall sut y byddai hynny'n gwella sut yr ydym yn gweithio ar hyn o bryd. Rhoddodd enghraifft o'r fformwla cyllido yr oedd rhai rhannau o lywodraeth leol am ei weld yn cael ei ddiwygio, ond nid eraill. Dywedodd yr YCLLGC y byddai'n adolygu'r fformwla cyllido pe bai'n cael llythyr gan CLILC ar ran pob un o'r pleidiau. Ond rhaid bod yn siŵr mai dyna beth mae pob rhan o lywodraeth leol am ei weld ac nad yw'n fater gwleidyddol.
- 3.13 Roedd yr YCLLGC hefyd yn cydnabod bod gwaith ataliol yn bwysig a nododd enghraifft o waith a wnaethpwyd ar gamddefnyddio sylweddau. Crybwyllodd fater yr arbedion sy'n deillio o waith ataliol nad yw llywodraeth leol yn elwa arnynt ond sydd o fudd i rannau eraill o'r system.
- 3.14 Awgrymodd yr YCLLGC hefyd fod angen i ni edrych yn strategol ar gyllido a chyllid yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae twf mewn cyllid cyhoeddus yn dilyn twf mewn GDP sef -1% - mae pob asesiad yn dangos y bydd gostyngiad mewn termau real yn nhwf cyllid yn y dyfodol. Mae'r arian sydd ar gael drwy RSG yn debygol o leihau yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf os gallwn

dybio y bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn dull cymharol debyg wrth bennu'r gyllideb yn y dyfodol. Sut ddylem ni ddyrannu cyllid? Mae angen 5% i 6% arnom i ddechrau codi o'r sefyllfa hon, ond ni ellir bod yn hyderus bod hynny'n realistig. Mae'r sylfaen drethu ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei herydu ac mae'r gallu i godi trethi'n gyfyngedig. Mae angen cymryd golwg strategol ar sut yr ydym am ddarparu a strwythuro gwasanaethau yn ystod y 10 mlynedd nesaf.

- 3.15 Roedd y Cynghorydd Andrew Morgan (AM) am wybod beth oedd y camau nesaf a sut allem ni ddiwygio strwythurau. Dywedodd fod anghenion awdurdodau lleol yn wahanol, a bod gan rai anghenion uwch oherwydd amddifadedd ac eraill oherwydd teneurwydd eu poblogaethau gwledig. Mae llawer o bethau i'w hystyried, ond nid oedd AM yn credu mai dyma oedd yr amser i adolygu'r fformwla.
- 3.16 Roedd y Cadeirydd yn credu bod hon yn ddadl i CLILC.
- 3.17 Roedd y Cynghorydd Hugh Evans (HE) yn credu bod angen i Gymru fod yn genedl fwy rhagweithiol, yn hytrach nag adweithiol. Ar hyn o bryd, mae llywodraeth leol yn gorfod adweithio i'r sefyllfaoedd mae'n eu hwynebu. Roedd yn cytuno bod angen am egwyddorion arweiniol ynglŷn â pham rydym yn eistedd o gwmpas y bwrdd. Nid yw'r system grantiau'n caniatáu i lywodraeth leol ddarparu dros y tymor hwy ac roedd yn awyddus i wybod a oedd y system grantiau'n gweithio i Lywodraeth Cymru. Roedd HE yn credu bod angen i ni gytuno ar egwyddorion arweiniol ynglŷn â ble rydym yn mynd, sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno a'r hyn rydym yn anelu ato.
- 3.18 Croesawodd Gaynor Richards y papur ac yn arbennig yr awydd i agor trafodaeth â'r trydydd sector gan y byddent yn croesawu'r cyfle i gael trafod materion cyllid a chyllido.
- 3.19 Crynhodd y Cadeirydd drwy ddweud ei fod yn credu bod consensws o amgylch y bwrdd ynglŷn â'r angen am gyllido tymor canolig i hir. Gofynnodd y Cadeirydd i'r **ysgrifenyddiaeth i edrych ar ac i fapio'r** gwahanol is-grwpiau cyllid a'r mecanweithiau erbyn y cyfarfod nesaf ac wedyn gallai'r grŵp ystyried cynigion ar sut i fwrw ymlaen â hyn.

Papur 2 – Cydweithio a Strwythurau

- 4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a oedd yn canolbwyntio ar egwyddorion ar gyfer cydweithredu a'r opsiynau ar gyfer gweithio ar y cyd ac uno gwirfoddol. Oherwydd cyfyngiadau amser cynigiodd y Cadeirydd roi sylw i fater egwyddorion cydweithredu a chydwasanaethau'n unig.

- 4.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i gynnig sylwadau ar y pwyntiau trafod ac yn benodol yr angen i symleiddio trefniadau gweithio rhanbarthol a hawl awdurdodau lleol i dynnu'n ôl o'r trefniadau. Mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried gan CLILC mewn fforymau eraill, ond mae gan Lywodraeth Cymru bryderon ynglŷn â hyn.
- 4.3 Dywedodd DW ei bod yn credu bod cydweithredu'n ddull o gyrraedd y nod ac nad yw'n ddull ynddo'i hun. Dylai cydweithredu gael ei ategu gan achosion busnes lleol a oedd yn dangos ac yn sefydlu budd i'r ddwy ochr a bod angen i Lywodraeth Cymru ddangos yr achos busnes lle'r oedd angen dulliau cydweithredol.
- 4.4 Roedd DW yn credu bod y rhan fwyaf o'r egwyddorion yn y papur wedi cael eu datblygu ac wedi cael eu cymeradwyo gan lywodraeth leol. Roedd CLILC wedi awgrymu ac wedi cynnwys yr egwyddor o adolygiad ac roedd hyn yn cynnwys cyfle i dynnu'n ôl os byddai adolygiad yn dangos nad oedd y cydweithredu'n rhoi gwerth am arian i rai partïon. Rhoddodd DW enghraifft o gydweithredu roedd Cyngor Casnewydd yn rhan ohono ond nad oedd bellach yn rhoi gwerth am arian i Gasnewydd felly yn ei barn hi dylid caniatáu iddynt dynnu'n ôl.
- 4.5 Nododd y Cadeirydd fod ei farn ef ychydig yn wahanol, ond rhoddodd gyfle i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i ymuno yn y drafodaeth.
- 4.6 Dywedodd yr YCLLGC fod llywodraeth leol wedi bod yn dweud wrtho yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr hoffai weithio'n rhanbarthol ac yn gydweithredol, felly ni ddylem ddechrau drwy feddwl sut y gallem dynnu allan ohono. Mae'n bwysig canolbwyntio ar fwrw ymlaen â hyn a gwneud iddo weithio. Dywedodd ei fod wedi gweld sawl ymdrech i gydweithredu'n methu am fod un partner wedi tynnu'n ôl, a hynny'n aml ar y funud olaf. Os oes problem yn dod i'r amlwg yn ystod adolygiad yna dylid datrys y broblem, yn hytrach na chefnu arni.
- 4.7 Hoffai'r YCLLGC weld mwy o gydwasanaethau'n cael eu datblygu o fewn ac ar draws llywodraeth leol ac mae am weld egwyddorion sy'n adlewyrchu ymrwymiad i ddatrys problemau ac nid dadfeilio gwasanaethau.
- 4.8 Pwysleisiodd y Cyngorydd Peter Fox (PF) nad oedd llywodraeth leol eisiau datgymalu ond yn hytrach adolygu - ond nid oedd yn credu bod neb yn wrthwynebus i ragor. Atebodd PF yr YCG, gan ddweud mai'r problemau roedd gan lywodraeth leol wedi'u cael â dull blaenorol YCG i weithio rhanbarthol oedd y term 'gorfodol'. Roedd yn teimlo mai parch Llywodraeth Cymru a

llywodraeth leol at ei gilydd oedd y peth pwysig i sicrhau canlyniad cyffredin. Dywedodd fod yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd i ddeall safbwyntiau ein gilydd ac i roi sylw i unrhyw feini tramgwydd. Teimlai fod arweinyddion awdurdodau lleol mewn sefyllfa i gyflawni. Bydd llywodraeth leol yn parhau i gydweithredu'n gryf, ac mae'r bargeinion Twf a Dinesig yn dangos bod perthnasoedd yn datblygu ac y dylid cydnabod hyn.

- 4.9 Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart (RS) y dylid bod yn ofalus nad yw llywodraeth leol yn cael ei chamliwio yn y ddadl. Mae llywodraeth leol am gael y rhyddid a'r pŵer i wneud yr hyn sydd orau i'w hawdurdod lleol. Mae hynny'n golygu cael trafodaeth aeddfed. Mae'r hawl i dynnu'n ôl yn cydnabod ein hawl i herio cydweithredu aneffeithiol. Cododd RS hefyd bwyntiau ar fater olion troed, gan dynnu sylw at yr anawsterau sy'n cael eu hachosi gan wahanol olion troed, gan ychwanegu nad yw'n gwneud synnwyr bod olion troed y consortia addysg a datblygu economaidd yn wahanol. Dywedodd RS os oedd ffordd o gyflawni canlyniadau gwell i'w preswylwyr yna dylent allu gwneud hynny.
- 4.10 Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan (AM) yr hoffai weithio â Llywodraeth Cymru i gytuno ar ba feysydd i gydweithredu arnynt, fel adnoddau dynol a chyflogres. Trafododd AM faterion sy'n gysylltiedig â chydgynglluniau trafndiaeth, a honnai y dylem fod yn meddwl sut fydd pethau'n gweithio mewn deng mlynedd, ac na ddylem fod yn canolbwyntio ar y presennol yn unig. Credai y dylem i gyd fod yn canolbwyntio ar gyfleoedd i gydweithredu i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau gweithrediadol 'cefn swyddfa'. Roedd AM hefyd yn cytuno nad oedd gwahanol olion troed yn helpu ac os oedd pethau'n cael eu cynnig yn rhanbarthol bod angen cyd-ddealltwriaeth o sut yr oedd gwasanaethau'n mynd i weithredu a chael eu rheoli, yn enwedig i osgoi dyblygu swyddogaethau gwahanol fyrddau ac ati.
- 4.11 Nododd Michael Plaut (MP) y farn fod busnesau wedi'u synnu gan y sefyllfa gyfredol. Mae pobl ar y ddwy ochr (llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol) eisiau cael y gorau. Felly beth yw'r cynllun deng mlynedd ar gyfer darparu gwasanaethau? Nododd MP fod syniadau da'n cael eu cynnig a bod pethau gwych yn digwydd, ond heb strategaeth resymol byddwn i gyd yn dal yma ymhen deng mlynedd yn trafod yr un peth. Mae'n bwysig dewis ychydig o feysydd i ganolbwyntio a gweithredu arnynt, ond rhaid cael strategaeth neu ni fyddwn yn cyflawni dim.
- 4.12 Mynegodd y Cadeirydd ei amheuon ynglŷn â gallu'r grŵp i lunio strategaeth deng mlynedd ond roedd yn derbyn bod gwaith eisoes wedi cael ei gomisiynu gan y grŵp hwn ar gyrff / partneriaethau rhanbarthol a byddai angen edrych ar hwn pan fyddai ar gael. Credai hefyd ei bod yn rhesymol i dderbyn os nad oedd trefniadau cydweithredol yn rhoi gwerth am arian yna dylid eu hadolygu.

- 4.13 Pwysleisiodd y Cadeirydd pa mor bwysig oedd hi fod y grŵp hwn yn nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer cydweithio a chydweithredu.
- 4.14 Mynegodd AM ei bryderon eto fod cydweithredu'n canolbwyntio ar ganlyniadau gwasanaethau ar y foment a bod cyfleoedd i ddefnyddio cydweithredu i wneud llywodraeth leol yn fwy cydnerth ac yn gryfach yn gyffredinol. Roedd Adnoddau Dynol a Chyflogres yn enghraifft dda o ble mae cyfleoedd yn bodoli, ac mewn rhai achosion manteisiwyd arnynt. Os yw'r achos busnes yn gwneud synnwyr yna dylai llywodraeth leol weithredu arno. Dywedodd AM ei fod wedi sylwi yn yr amser roedd wedi bod yn arweinydd na chafwyd dim trafodaeth ystyrlon ar gydwasanaethau na chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru.
- 4.15 Tynnodd Reg Kilpatrick (RK) sylw'r grŵp at brofiad o'r gorffennol sy'n dangos sut y gall cydweithredu fethu pan fydd un awdurdod lleol yn cefnu arno a'r rhwystredigaeth a all ddod yn sgil hynny. Roedd yn cytuno hefyd bod mwy o gyfle'n awr i gydweithredu mwy gyda datblygiadau digidol ac nad oedd hynny o reidrwydd yn golygu symud pobl ond yn hytrach golygai fabwysiadu dulliau mwy hyblyg ac arloesol. Fodd bynnag, credai Reg mai lle llywodraeth leol oedd canfod y cyfleoedd ac y bydd llywodraeth Cymru wedyn yn gallu eu cefnogi, yn hytrach nag fel yr oedd yn y gorffennol pan oedd llywodraeth Cymru yn awgrymu meysydd ar gyfer cydweithredol ac nad oedd y rheini bob amser yn cael eu croesawu gan lywodraeth Leol.
- 4.16 Cytunodd PF fod cyfleoedd wedi'u colli yn y gorffennol pan oedd cydweithredu wedi methu. Nododd fod cyni wedi golygu fod llywodraeth leol wedi gorfod bod yn fwy creadigol wrth ddatblygu a hybu cydnerthedd. Dylid croesawu rhannu gwasanaethau a swyddogaethau eraill ac ni ddylid bod ofn trafod dim. Roedd PF yn credu bod angen mapio'r hyn sy'n digwydd eisoes a chwmpasu a rhannu arferion da.
- 4.17 Rhestrodd AM sawl enghraifft o weithio ar y cyd a soniodd am y swyddogaeth cynllunio defnydd tir a sut mae awdurdodau'n helpu ei gilydd drwy gyfnodau prysur a thawel gyda llwythau gwaith. Mae Swyddogion Cynllunio Bro Morgannwg yn helpu â cheisiadau cynllunio ar ran Rhondda Cynon Taf. Roedd AM yn teimlo y byddai'n fwy buddiol ceisio canfod meysydd lle mae cytundeb a lle gellid gwneud cynnydd, yn hytrach na chanolbwyntio ar feysydd lle mae anghytuno.
- 4.18 Soniodd RK am y cynnig sydd yn y camau cynnar i sefydlu Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, a fydd yn cael ei threialu gan gynghorau Wrecsam, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf.

- 4.19 Yn ôl PF pan fethodd y cydweithrediad cefn swyddfa diwethaf (deg awdurdod) ni wnaeth llywodraeth leol fawr o gymwynas iddi'i hun drwy beidio â sicrhau llwyddiant y fenter. Mae llywodraeth leol wedi tyfu ac aeddfedu ers hynny, ac mae'r prinder arian ar hyn o bryd yn ysgogiad. Ond mae'n fwy nag arbed arian, mae hefyd yn golygu adeiladu cydnerthedd. Ni fyddai awdurdod PF byth yn cael problem o ran cysylltu ag awdurdodau eraill os oeddent yn cynnig rhywbeth gwell.
- 4.20 Gofynnodd PF a oedd modd mapio'r sefyllfa bresennol. Roedd yn teimlo bod rhai enghreifftiau da iawn, fel Gwasanaeth Adnoddau a Rennir Cymru Gwent. Roedd PF yn teimlo y gellid cyflawni mwy yn y cyd-destun digidol. Roedd swyddogaethau cyfreithiol ac adnoddau dynol yn enghreifftiau defnyddiol o sut y gallai awdurdodau lleol elwa ar fwy o gydweithredu. Roedd PF yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol canfod beth sydd ar gael, a hefyd edrych ar arferion da yn Lloegr.
- 4.21 Roedd y Cynghorydd Hugh Evans (HE) yn credu bod angen cyd-ddealltwriaeth o'r hyn mae cydweithredu'n ei olygu. Beth oedd y canlyniadau dymunol? Rhaid cydnabod nad yw rhai dulliau a rennir wedi gweithio bob tro, fel yr ymdrech gyntaf i greu swydd Pennaeth Priffyrdd ar y cyd. Roedd HE yn teimlo mai diffyg cynllunio priodol oedd achos y methiant.
- 4.22 Mynegodd yr YCLLGC ddiddordeb brwd mewn dulliau cydweithredol ac roedd yn credu bod gennym gyfle pwysig a gwerthfawr drwy weithio gyda'n gilydd. Roedd yn credu y byddai'n fuddiol pe bai llywodraeth leol yn creu gwasanaethau cenedlaethol ar gyfer rhai swyddogaethau, yn enwedig lle mae gallu cynyddol i awtomeiddio a digido swyddogaethau. Ymhen deng mlynedd, bydd deallusrwydd artifisial yn golygu na fydd rhai o'r swyddogaethau presennol yn bodoli. Ar hyn o bryd yr unig swyddogaeth sy'n cael ei rhannu ar lefel genedlaethol mewn llywodraeth leol yw CLILC. Mae hwn yn gyfle i ddatblygu dulliau a rennir yn gysylltiedig â CLILC i fanteisio ar y cyfleoedd ar gael i ni. Mae angen strwythurau sy'n ein helpu i gyflawni ar y lefel hon ac mae angen i ni bennu blaenoriaethau sy'n cael eu gyrru gan gyllidebau'r dyfodol a chyfleoedd ar gyfer digido. Bydd swydd Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol yn bwysig iawn i gyflawni hyn.
- 4.23 Mae RS yn credu bod ar lywodraeth leol angen y rhyddid i ganfod ac i gyflawni ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y gwasanaethau a'r swyddogaethau y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdanynt. Pwysleisiodd mai'r elfen 'gweithio rhanbarthol gorfodol' yng nghynigion Papur Gwyn yr YCG (Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cyllid a Llywodraeth Leol bryd hynny) a oedd yn ei boeni. Roedd yn teimlo na ddylai Llywodraeth Cymru fod yn gorfodi newid o'r fath ar lywodraeth leol gan nad dyna oedd y ffordd orau i gael cefnogaeth.

- 4.24 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid fod tri pheth wedi ei daro yn 2016, pan oedd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: bod cymaint o gydweithredu'n digwydd; bod awydd ymhlith arweinyddion awdurdodau lleol i wneud mwy; a bod gan bob arweinydd awdurdod lleol roedd wedi siarad â hwy stori i'w hadrodd am brosiectau cydweithredol a oedd wedi methu ar y funud olaf am fod un ochr wedi cefnu ar y cynllun.
- 4.25 Roedd yr YCG yn credu ei bod yn bwysig creu strwythur sy'n ennyn hyder pan fydd awdurdodau lleol wedi penderfynu mai cydweithredu yw'r trywydd gorau, ac na ddylid gallu dadwneud hynny os bydd un ochr yn tynnu allan. Byddai'n rhaid i'r cydweithredu gael ei ddiogelu rhag dewisiadau unigol. Roedd yn credu bod rhestr doreithiog o syniadau ar gyfer cydweithredu yn y papur ond byddai'n fuddiol os mai'r cam nesaf fyddai cytuno dros y pump i ddeng mlynedd nesaf mai'r rhain yw'r meysydd i gytuno arnynt. Roedd yn bwysig pwysleisio hefyd na allai un ochr wedyn dynnu allan ohono.
- 4.26 Nododd RS y Dinas-ranbarthau fel enghraifft dda o gydweithredu. Er gwaethaf anghytuno, roedd pob awdurdod yno o hyd, nid oedd neb yn cael eu gorfodi i aros, ond roeddent yn gweld buddiannau aros.
- 4.27 Cyfeiriodd ED at y problemau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ac fel nad oedd awdurdodau wedi llwyddo i gyflawni'r arbedion disgwylidiedig, ond eu bod yn hytrach yn talu mwy am rai gwasanaethau nag y byddent wedi'i wneud fel arall.
- 4.28 Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth a thynnodd sylw at y **pwyntiau gweithredu** canlynol.
- Rhaid i'r gwaith hwn gael ei arwain gan lywodraeth leol – awgrymodd AM y dylai arweinyddion llywodraeth leol nodi tri neu bedwar maes i ganolbwyntio arnynt o ran cydweithredu / cydwasanaethau
 - Bydd CLILC yn mapio'r partneriaethau / dulliau cydweithredu ac yn tynnu sylw at arferion gorau
 - Bydd llywodraeth leol yn cynnig rhestr flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu erbyn y cyfarfod nesaf.
- 4.29 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cyfle i ystyried pwyntiau trafod ar uno gwirfoddol yn y cyfarfod hwn oherwydd prinder amser.

Papur i'w nodi – Pwerau Ychwanegol a Hyblygrwydd

- 5.1 Nododd y Cadeirydd fod hwn yn bapur i'w nodi ac nad fyddai'n cael ei drafod yn fanwl; fodd bynnag roedd yn gwahodd sylwadau. Ni wnaethpwyd dim sylwadau, felly dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu unrhyw sylwadau

gan aelodau a fyddai'n cael eu hanfon at yr ysgrifenyddiaeth, gan ofyn iddynt gadw'r amserlen ddeddfwriaethol mewn cof.

Camau Gweithredu

Newid mewn Gwasanaeth a'r Sefyllfa Ariannol – Fframwaith Ariannol

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r **ysgrifenyddiaeth i edrych ar ac i fapio'r** gwahanol is-grwpiau ariannol a'r mecanweithiau ar gyfer y cyfarfod nesaf ac yna bod y grŵp yn ystyried rhai cynigion ar sut y gellid bwrw ymlaen â hyn.

Cydweithredu a chydwasanaethau

- Crynhodd y Cadeirydd y camau i'w cymryd erbyn y cyfarfod nesaf:
 - Rhaid i'r gwaith hwn gael ei arwain gan lywodraeth leol – awgrymodd AM y dylai arweinyddion llywodraeth leol nodi tri neu bedwar maes i ganolbwyntio arnynt o ran cydweithredu / cydwasanaethau
 - Bydd CLILC yn mapio'r partneriaethau / dulliau cydweithredu ac yn tynnu sylw at arferion gorau
 - Bydd llywodraeth leol yn cynnig rhestr flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu erbyn y cyfarfod nesaf.